

# Mwy o arian yn eich poced

Hawlio eich budd-daliadau

## Materion ariannol



# Cynnwys

## Cyflwyniad

Y canllaw hwn	4
Age Cymru	5
Cyngor Age Cymru	6
Cyfrifiannell budd-daliadau	7
Age Cymru lleol	8

## Beth fedrwch chi ei hawlio?

Cipolwg ar fudd-daliadau	9
--------------------------	---

## Eich pensiwn

Pensiwn y Wladwriaeth: hawlio eich pensiwn	12
Credyd Pensiwn: ychwanegu at eich incwm wythnosol	16

## Eich cartref

Help gyda'r Dreth Gyngor	20
Budd-dal tai a help gyda chostau tai	23
Help gyda chostau gwresogi: cartref cynnes yn ystod y gaeaf	25

## **Eich lles**

Help gyda chostau brys neu gostau unigol	<b>30</b>
Help gyda chostau iechyd	<b>33</b>
Lwfans Gweini: arian ar gyfer eich anghenion gofal	<b>35</b>
Gwneud cais am Lwfans Gweini	<b>37</b>
Anghenion gofal cyffredin i'w cynnwys yn eich cais	<b>39</b>
Beth os bydd fy nghais am Lwfans Gweini yn cael ei wrthod?	<b>40</b>
Lwfans Gofalwr: arian ychwanegol i helpu gyda gofal	<b>41</b>

<b>Budd-daliadau oedran gweithio</b>	<b>43</b>
--------------------------------------	-----------

<b>Chwalu'r chwedlau</b>	<b>45</b>
--------------------------	-----------

<b>Sefydliadau defnyddiol</b>	<b>47</b>
-------------------------------	-----------

<b>Cysylltwch â ni</b>	<b>51</b>
------------------------	-----------

<b>Sut gallwch chi helpu?</b>	<b>52</b>
-------------------------------	-----------

# Cyflwyniad

## Y canllaw hwn

**Bob blwyddyn, amcangyfrifir bod gwerth hyd at £2.2 biliwn o fudd-daliadau'r wladwriaeth yn mynd heb eu hawlio gan bobl hŷn yn y DU.**

Mae rhai pobl yn amharod i hawlio; mae'r broses hawlio yn digalonni rhai – ac nid yw rhai pobl yn ystyried eu bod yn gymwys i dderbyn cymorth ychwanegol. A allech chi fod yn un o'r bobl sydd ar eu colled?

Os ydych chi'n berson hŷn, efallai bod gennych hawl i fudd-daliadau nad ydych wedi medru eu hawlio o'r blaen. Mae'n bosib bydd y budd-daliadau hyn yn eich helpu chi i gadw eich annibyniaeth a gwella eich safon byw trwy helpu gyda chostau tŷ, anghenion gofal neu gostau byw cyffredinol o ddydd i ddydd.

**Mae'n bosib y byddwch chi'n gymwys ar gyfer budd-daliadau hyd yn oed os ydych chi'n berchen ar eich cartref, os oes gennych chi gynilion, neu os ydych chi eisoes yn hawlio budd-daliadau penodol. Darllenwch y canllaw hwn i wneud yn siŵr nad ydych chi ar eich colled.**

Mae'r holl ffigurau y cyfeirir atynt yn y canllaw hwn yn berthnasol rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026.

Mae ein canllaw yn cynnwys llawer o wybodaeth am amrywiaeth o faterion, a gellir ei ddefnyddio fel cyflwyniad i'r materion a nodwyd ynddo. Mae gennym ni daflenni ffeithiau a chanllawiau eraill sy'n cynnwys mwy o fanylion am faterion gwahanol. Rydyn ni'n sôn am y taflenni ffeithiau a'r canllawiau hynny o fewn y canllaw hwn, a gallwch chi ddod o hyd i restr o bopeth rydyn ni'n ei gynhyrchu ar wefan Age Cymru:

**[www.agecymru.cymru/adnoddau-gwybodaeth](http://www.agecymru.cymru/adnoddau-gwybodaeth)**

Mae'r canllaw hwn yn berthnasol ledled Cymru. Mae yna fersiynau eraill ar gael sy'n berthnasol i Loegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

# Age Cymru

## Age Cymru yw'r elusen genedlaethol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru.

Ein gweledigaeth yw cymdeithas sy'n cynnig profiadau cadarnhaol i bobl sy'n heneiddio yng Nghymru. Cymdeithas ble mae pobl hun yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys, ac yn medru dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Ein cenhadaeth yw gwella bywydau pobl hun drwy ddarparu cyngor, cefnogaeth a gwasanaethau dibynadwy. Rydyn ni'n defnyddio ein gwybodaeth a'n profiadau i ddylanwadu ar bolisiau a phenderfyniadau sy'n effeithio ar bobl hŷn.

Ynghyd â'n partneriaid lleol:

- Rydym yn darparu gwybodaeth a chyngor.
- Rydym yn darparu rhaglenni llesiant.
- Rydym yn darparu eiriolaeth annibynnol.
- Rydym yn cefnogi gofalwyr.
- Rydym yn ymgychu ac yn ymchwilio.

Age Cymru

Tŷ Mariners

Llys Trident

Ffordd Ddwyrain Moors

Caerdydd CF24 5TD

**029 2043 1555**

**[www.agecymru.cymru](http://www.agecymru.cymru)**

Elusen Gofrestredig 1128436

Mae'r pecyn gwybodaeth hwn wedi cael ei baratoi gan Age Cymru ac Age UK, ac mae'n cynnwys cyngor cyffredinol yn unig y gobeithiwn y bydd o ddefnydd i chi. Ni ddylid dehongli unrhyw beth yn y pecyn hwn fel cyngor penodol ac ni ddylid dibynnu arno fel sail ar gyfer unrhyw benderfyniad neu weithred. Nid yw Age Cymru, Age UK, nac unrhyw un o'i is-gwmnïau, nac elusennau yn derbyn unrhyw atebolrwydd sy'n codi yn sgil defnyddio'r pecyn hwn. Ein nod yw sicrhau bod y wybodaeth mor gyfredol a chywir â phosibl, ond byddwch yn ymwybodol bod rhai meysydd yn newid o dro i dro.

# Cyngor Age Cymru

## **Cyngor Age Cymru: ein gwasanaeth gwybodaeth a chyngor ar gyfer materion sy'n effeithio ar bobl dros 50 oed yng Nghymru.**

Mae Cyngor Age Cymru wedi ymrwymo i fod yn wasanaeth gwybodaeth a chyngor blaenllaw ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru. Ein nod yw darparu gwybodaeth a chyngor effeithiol ac hygyrch o ansawdd uchel wrth gynnig gwasanaeth diduedd a chyfrinachol am ddim. Gall Cyngor Age Cymru gynorthwyo pobl hŷn, eu teulu, eu ffrindiau, gofalwyr neu weithwyr proffesiynol.

### **Cysylltu â ni**

Os hoffech chi siarad gydag un o'n cyngorwyr arbenigol, yn y Gymraeg neu'r Saesneg, ffoniwch **0300 303 44 98**. Mae ein llinell gyngor ar agor rhwng 9am a 4pm, o ddydd Llun tan ddydd Gwener.

(Codir tâl am alwadau ar yr un gyfradd â galwad i rif safonol 01 neu 02. Byddant hefyd yn cael eu cynnwys yn awtomatig mewn unrhyw becyn munudau llinell dir neu funudau cynhwysol ffôn symudol.)

Gallwch hefyd anfon e-bost atom gan ddefnyddio'r cyfeiriad **cyngor@agecymru.org.uk** neu ewch i'r wefan **www.agecymru.cymru/cyngoragecymru**

Os ydych chi'n poeni am arian neu am dalu eich biliau, cysylltwch â ni cyn gynted â phosib, cyn i'r pryderon effeithio ar eich cwsg a'ch iechyd. Os ydych chi mewn dyled, mae ein canllaw Help gyda Dyled yn llawn gwybodaeth ddefnyddiol. Dydy hi byth yn rhy gynnar na'n rhy hwyr i chwilio am gefnogaeth.

# Cyfrifiannell budd-daliadau



**Mae cyfrifiannell budd-daliadau ar-lein Age Cymru yn rhad ac am ddim, ac yn gyfrinachol – efallai gall y gyfrifiannell eich helpu i ddarganfod beth y gallwch hawlio.**

Bydd angen i chi wybod:

- faint o incwm rydych chi'n ei dderbyn o unrhyw fudd-daliadau, gwaith, pensiynau preifat neu ffynonellau eraill
- eich rhent neu gostau cartref a'ch band Treth Gyngor
- faint o gynilion sydd gennych.

Dim ond rhyw 10 munud fydd angen, ac fe gewch weld gallwch chi hawlio.

Ewch i **[www.agecymru.cymru/gwybodaeth-a-chyngor/mwy-o-arian-yn-eich-poced](http://www.agecymru.cymru/gwybodaeth-a-chyngor/mwy-o-arian-yn-eich-poced)** neu, os nad oes gennych fynediad at y rhyngrwyd, gofynnwch i ffrind neu berthynas eich helpu.

Fel arall, ffoniwch Llinell Gyngor genedlaethol Age Cymru, neu ewch at eich sefydliad Age Cymru lleol i gael cyngor ar fudd-daliadau.

**Ffoniwch Gyngor  
Age Cymru ar  
0300 303 44 98**

# Eich Age Cymru leol

Cysylltwch â Chyngor Age Cymru i holi am fanylion eich cangen Age Cymru leol, neu ewch i: **[www.agecymru.cymru/ein-gwaith/yn-eich-ardal-chi](http://www.agecymru.cymru/ein-gwaith/yn-eich-ardal-chi)**

Bydd eich cangen Age Cymru leol yn medru:

- egluro pob budd-dal a chyfrifo beth sydd gennych hawl iddo  
- gallai fod yn gyfuniad o fudd-daliadau neu hyd yn oed yn daliad ôl-ddyddiedig
- eich helpu i hawlio a llenwi ffurflenni
- bod yma i wrando a chynnig cyngor cyffredinol am eich sefyllfa ariannol.
- Cynnig cefnogaeth wyneb yn wyneb (mae'n bosib bydd ymweliadau â'r cartref yn bosib mewn rhai amgylchiadau)



# Beth fedrwch chi ei hawlio?



## Cipolwg ar fudd-daliadau

Dyma drosolwg byr o'r budd-daliadau y gallech eu hawlio, faint y gallech ei dderbyn, a ble i ddod o hyd i fwy o wybodaeth yn y canllaw hwn. Mae tri chategori: eich **pensiwn**, eich **cartref** a'ch **lles**.

### 1. Eich pensiwn

#### **Pensiwn y Wladwriaeth** (gweler tudalennau 12-15)

**Faint?** Hyd at £230.25 yr wythnos, yn dibynnu faint o gyfraniadau Yswiriant Gwladol wnaethoch tra'r oeddech chi'n gweithio.

#### **Credyd Pensiwn – Credyd Gwarant**

(gweler tudalennau 17-18)

**Faint?** Mae'n ychwanegu o leiaf £227.10 yr wythnos at incwm bobl sengl a £346.60 at incwm parau.

#### **Credyd Pensiwn – Credyd Cynilion**

(gweler tudalennau 18-19)

**Faint?** Hyd at £17.30 yr wythnos i bobl sengl neu £19.36 yr wythnos i barau.

## 2. Eich cartref

### **Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**

(gweler tudalennau 20-21)

**Faint?** Mae'r swm yn amrywio, ond gallai fod yn ddigon i dalu eich Treth Gyngor yn llawn.

### **Budd-dal Tai** (gweler tudalennau 23-24)

**Faint?** Mae'r swm yn amrywio, ond gallai fod yn ddigon i dalu eich rhent yn llawn.

### **Taliad Tanwydd Gaeaf** (gweler tudalen 25-26)

**Faint?** Hyd at £300 y flwyddyn gan ddibynnu ar eich oedran a'ch amgylchiadau.

### **Taliad Tywydd Oer** (gweler tudalen 26)

**Faint?** £25 yr wythnos pan fydd y tywydd yn oer iawn.

### **Disgownt Cartref Cynnes** (gweler tudalen 26-27)

**Faint?** Disgownt untro ar eich bil ynni gan eich cyflenwr.

### 3. Eich llesiant

#### **Help gyda chostau brys neu gostau untro** (gweler tudalennau 30-32)

**Faint?** Mae amrywiaeth o help ar gael, yn dibynnu ar eich amgylchiadau.

#### **Help gyda chostau iechyd** (gweler tudalennau 33-34)

**Faint?** Mae'n amrywio. Help gyda chostau triniaeth ddeintyddol, sbectol neu lensys cyffwrdd, a chostau teithio penodol er mwyn derbyn triniaeth gan y GIG.

#### **Lwfans Gweini** (gweler tudalennau 35-40)

**Faint?** £73.90 yr wythnos os oes angen help arnoch yn ystod y dydd neu yn ystod y nos. £110.40 os oes angen help arnoch yn ystod y dydd ac yn ystod y nos.

#### **Lwfans Gofalwr** (gweler tudalen 41-42)

**Faint?** £83.30 yr wythnos os ydych yn gofalu am rywun.

# Eich Pensiwn

**Mae'n bosib bod gennych bensiwn preifat neu bensiwn y gweithle, ond mae hawl gan y rhan fwyaf o bobl i Bensiwn y Wladwriaeth pan fyddant yn cyrraedd oedran penodol.**



## Pensiwn y Wladwriaeth: hawlio eich pensiwn

Mae Pensiwn y Wladwriaeth yn daliad rheolaidd gan y llywodraeth ac mae'n seiliedig ar eich cyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Byddwch yn ei dderbyn pan fyddwch yn cyrraedd oed Pensiwn y Wladwriaeth – sef **66** oed ar hyn o bryd ar gyfer dynion a menywod.

Newidiodd pensiwn y wladwriaeth yn 2016. Mae yna 2 system nawr, ac mae'r cyfanswm rydych chi'n ei dderbyn yn dibynnu ar bryd y cawsoch chi'ch geni, fel y nodwyd ar y dudalen nesaf.

### **Newidiadau i Bensiwn y Wladwriaeth a gwirio pryd fyddwch chi'n gymwys**

Ar ôl 6 Mai 2026 bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn codi, gan gyrraedd 67 erbyn 6 Mawrth 2028 (gan effeithio ar unrhyw un gafodd eu geni rhwng 6 Ebrill 1960 a 5 Ebrill 1977).

Gallwch wirio pryd fyddwch chi'n derbyn Pensiwn y Wladwriaeth, ar sail eich dyddiad geni, drwy ffonio Cyngor Age Cymru neu drwy ddefnyddio'r gyfrifiannell ar wefan GOV.UK: [www.gov.uk/calculate-state-pension](http://www.gov.uk/calculate-state-pension)

Gallwch chi hefyd ffonio'r Gwasanaeth Pensiwn – ewch i dudalen 50 i ddod o hyd i fanylion cyswllt.

Os nad ydych yn gymwys i dderbyn Pensiwn y Wladwriaeth, ewch i dudalen 43 i gael rhagor o wybodaeth am fudd-daliadau oedran gweithio, fel y Credyd Cynhwysol neu'r Taliad Annibyniaeth Bersonol.

## **Bydd pobl sydd wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016 yn cael eu heffeithio gan y rheolau newydd:**

Bydd swm wythnosol llawn yn cael ei ddarparu i bobl sydd wedi casglu gwerth o leiaf 35 mlynedd o gyfraniadau neu gredydau Yswiriant Gwladol (YG). Mae hyn yn golygu **£230.25** yr wythnos, ond ni fyddwch chi'n derbyn y swm cyfan os nad oes gennych chi ddigon o gyfraniadau neu gredydau YG, er enghraifft os ydych chi wedi contractio allan o gynllun Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol.

Rhaid i chi feddu ar isafswm o 10 mlynedd o gyfraniadau er mwyn bod yn gymwys – os oes gennych rhwng 10 a 34 blynedd o gyfraniadau cewch swm is graddedig na'r £230.25 a ddatganir uchod.

## **Os cyrhaeddoch chi oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2016, byddwch yn parhau i dderbyn Pensiwn y Wladwriaeth drwy'r hen system.**

Gan gyfeirio at yr hen reolau, mae Pensiwn llawn y Wladwriaeth yn talu **£176.45** yr wythnos os ydych chi wedi casglu gwerth o leiaf 30 mlynedd o gyfraniadau.

Efallai y byddwch yn derbyn symiau ychwanegol, sy'n dibynnu ar faint rydych chi'n ennill (a'r cyfanswm y taloch ar ffurf cyfraniadau Yswiriant Gwladol).

Fel y nodir uchod, byddwch yn derbyn £176.45 os ydych chi wedi gwneud cyfraniadau Yswiriant Gwladol am fwy na 30 blynedd. Os nad ydych chi wedi gwneud hyn, byddwch yn dal i dderbyn pensiwn, ond byddwch chi ond yn derbyn 1 rhan o 30 o'r cyfanswm cyfan am bob blwyddyn wnaethoch chi gyfrannu. Er enghraifft, os ydych chi wedi talu gwerth 15 mlynedd o gyfraniadau Yswiriant Gwladol erbyn eich bod chi'n hawlio, mae hawl gennych chi dderbyn 15/30 rhan o'r cyfanswm cyfan - £88.23 yr wythnos.

## Gwirio eich record Yswiriant Gwladol

Gallwch wirio'r bylchau yn eich record Yswiriant Gwladol drwy ofyn am ddatganiad gan Gyllid a Thollau EF. Gallwch chi hefyd ofyn am ragolwg gan Ganolfan Pensiwn y Dyfodol, a gofyn am amcan o faint byddwch chi'n ei dderbyn pan fyddwch chi'n hawlio. Ewch i dudalennau 48 i ddod o hyd i fanylion cyswllt.

## Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Gwirfoddol

Os nad ydych chi wedi cyfrannu digon i dderbyn Pensiwn y Wladwriaeth lawn, mae'n bosib fyddwch chi'n medru gwneud cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol. Ond chwiliwch am gyngor cyn gwneud hyn, oherwydd bydd angen i chi bwysu a mesur y gost yn erbyn yr elw posib.

Mae'n bosib byddwch chi ar eich colled gyda budd-daliadau sy'n gofyn am brawf modd er enghraifft Credyd Pensiwn. Cysylltwch â'r gwasanaeth pensiwn er mwyn dod o hyd i fwy o wybodaeth - ewch i dudalen 50 i ddod o hyd i fanylion cyswllt.

## Sut ydw i'n hawlio Pensiwn y Wladwriaeth?

Mae proses hawlio Pensiwn y Wladwriaeth yr un fath dan y system newydd a'r hen reolau.

### **Mae'r rhan fwyaf o bobl hŷn â hawl i bensiwn, ond mae'n rhaid gwneud cais amdano h.y. ni fyddwch yn cael eich pensiwn fel mater o drefn.**

Byddwch chi'n derbyn llythyr gan y Gwasanaeth Pensiwn tua phedwar mis cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Bydd y llythyr yn egluro sut i wneud cais. Os nad ydych chi wedi derbyn y llythyr dau fis cyn eich pen-blwydd, cysylltwch â'r Gwasanaeth Pensiwn. Mae'n syniad da i gyflwyno eich cais yn syth oherwydd mae prosesu'r cais yn cymryd cryn dipyn o amser (ond cynigir opsiwn i ôl-ddyddio'r cais).

## Ôl-ddyddio cais

Gallwch ôl-ddyddio eich cais am Bensiwn y Wladwriaeth am uchafswm o 12 mis. Os ydych chi'n gwneud cais mwy na 12 mis ar ôl dod yn gymwys, byddwch chi'n cael eich cyfri fel rhywun sydd â chais gohiriedig.

## Gohirio Pensiwn y Wladwriaeth

Nid oes rhaid ichi hawlio Pensiwn y Wladwriaeth yn syth. Gallwch chi ddewis gohirio - ac o bosib gallwch gael pensiwn uwch. Mae'r rheolau yn gymhleth os ydych chi'n dewis gohirio, a ni fyddwch chi bob tro yn derbyn swm yn fwy. Hefyd, mae'n bosib bydd hyn yn effeithio ar fudd-daliadau eraill, felly os ydych chi'n ystyried gohirio, ffoniwch Age Cymru ar **0300 303 44 98** i ddod o hyd i'r opsiwn gorau i chi.

### Beth nesaf?

Mae yna ragor o wybodaeth yn ein canllaw *Pensiwn y Wladwriaeth*.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd yn cynhyrchu canllawiau am ddim yn ogystal â gwybodaeth ar-lein.

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am y system Pensiwn newydd y Wladwriaeth ewch i

**[www.gov.uk/pensiwn-y-wladwriaeth-newydd](http://www.gov.uk/pensiwn-y-wladwriaeth-newydd)**

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am system Pensiwn y Wladwriaeth cyn-2016 ewch i

**[www.gov.uk/pensiwn-sylfaenol-y-wladwriaeth](http://www.gov.uk/pensiwn-sylfaenol-y-wladwriaeth)**

# Credyd Pensiwn: mae'n ychwanegu at eich incwm wythnosol

Budd-dal cysylltiedig ag incwm yw hwn, i roi ychydig o arian ychwanegol ichi pan fyddwch wedi ymddeol.

Os ydych chi ar incwm isel neu'n cael trafferth wrth geisio ymdopi â phopeth, gallai hawlio Credyd Pensiwn helpu. Mae Credyd Pensiwn yn cael ei ddarparu mewn dwy ran ac mae'n bosib y byddwch yn gymwys i dderbyn naill ai un rhan neu dwy ran.

- Mae'r Credyd Gwarant yn ychwanegu at eich incwm wythnosol **i isafswm lefel gwarantedig** a bennir gan y Llywodraeth - gweler yr adran '*Beth fedra i ei hawlio?*' ar y dudalen nesaf.
- Mae'r Credyd Cynilion yn arian ychwanegol y byddwch yn ei dderbyn os oes gennych ychydig o gynilion neu os yw'ch incwm yn fwy na Phensiwn y Wladwriaeth sylfaenol.

**Mae'n werth hawlio Credyd Pensiwn, hyd yn oed os mai swm bach yn unig y bydd gennych hawl iddo. Mae'n bosib bydd Credyd Pensiwn yn eich helpu i gymhwyso ar gyfer budd-daliadau a hawliau eraill. Er enghraifft:**

- Cewch gymorth i dalu eich Treth Gyngor, trwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (gallai hyd yn oed olygu na fyddwch yn talu'r Dreth Gyngor o gwbl, oni bai bod pobl eraill yn byw gyda chi) – gweler tudalen 20.
- Efallai y byddwch yn medru cael cymorth gyda chostau tŷ (gweler tudalen 23).
- Byddwch chi'n gymwys ar gyfer Taliadau Tanwydd Gaeaf (gweler tudalen 25)
- Efallai y byddwch yn medru derbyn Taliad Tywydd Oer (gweler tudalen 26).
- Byddwch yn cael help gyda chostau iechyd (gweler tudalen 33).
- Efallai gallwch gael trwydded teledu am ddim os ydych chi'n hŷn na 75.



Ffoniwch Cyngor Age Cymru ar **0300 303 44 98** i gael mwy o wybodaeth am sut mae Credyd Pensiwn yn medru eich helpu i hawlio budd-daliadau a hawliau eraill.

Hefyd, nid yw rhai mathau o incwm, fel Lwfans Gweini a budd-daliadau penodol eraill, yn cael eu hystyried wrth wirio cymhwyster Credyd Pensiwn, felly efallai bod gennych chi siawns dda o fod yn gymwys.

Mae'n werth gwneud cais. Os ydych chi eisoes wedi gwneud cais aflwyddiannus, ystyriwch fod cyfraddau budd-daliadau a sefyllfa ariannol unigolion yn newid, a cheisiwch eto.

## Beth fedra i ei hawlio?

### Credyd Gwarant

- Nid oes uchafswm am gynilion ar gyfer Credyd Pensiwn, ond bydd cynilion gwerth mwy na £10,000 yn effeithio'r swm y byddwch yn gallu hawlio.
- Os ydych yn byw gyda phartner, dim ond un ohonoch all hawlio Credyd Pensiwn a byddwch yn cael eich asesu fel pâr.
- I fod yn gymwys, mae angen i chi fod wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Os oes gennych bartner mae angen iddynt **hefyd** fod wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth - gweler tudalen 12.
- Yn gyffredinol, gallech dderbyn Credyd Gwarant os yw'ch incwm wythnosol yn llai na **£227.10** os ydych yn sengl, neu'n **£346.60** os ydych yn bâr – h.y. dyma isafswm incwm gwarantedig y Llywodraeth y cyfeirir ato ar ddechrau'r adran hon, felly bydd Credyd Gwarant yn cynyddu'ch incwm hyd at y lefel hon os yw'n is na hyn ar hyn o bryd.

Yn arwyddocaol, gallai eich isafswm gwarant fod yn uwch os oes gennych anabled, os ydych yn ofalwr, neu'n berchennog tŷ gyda thaliadau gwasanaeth – h.y. yn yr achosion hyn efallai y byddwch yn gymwys, hyd yn oed os yw'ch incwm ychydig yn fwy na'r symiau uchod.

Er enghraifft, os ydych yn gymwys i gael swm ychwanegol ar gyfer anabledd difrifol, bydd **£82.90** yr wythnos yn ychwanegol yn cael ei ychwanegu at eich gwarant isaf (neu, mewn rhai amgylchiadau, gall parau fod yn gymwys i dderbyn swm hyd yn oed yn uwch o **£165.80** yr wythnos) - gall y rheolau fod yn eithaf cymhleth, fodd bynnag, felly ffoniwch Cyngor Age Cymru ar **0300 303 44 98** am ragor o wybodaeth.

Mae swm ychwanegol o **£46.40** yr wythnos ar gael ar gyfer gofalwyr (neu, os oes gennych bartner a bod y ddau ohonoch yn gymwys **£92.80** ychwanegol yr wythnos). Fodd bynnag, unwaith eto, gall y rheolau fod yn gymhleth ac efallai bydd yr ychwanegiad gofalwr yn effeithio ar fudd-daliadau'r unigolyn rydych yn gofalu amdano - cysylltwch â Chyngor Age Cymru ar **0300 303 44 98** am ragor o wybodaeth.

## Credyd Cynilion

- Byddwch yn gymwys am Credyd Cynilion os cyrhaeddoch oed Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2016. Os ydych yn bâr ac mae un ohonoch wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2016, mae angen eich bod chi eisoes yn hawlio Credyd Cynilion cyn eich bod chi'n ei dderbyn.
- Mae Credyd Cynilion yn arian ychwanegol ar gyfer pobl sydd â chynilion neu incwm yn uwch na Phensiwn y Wladwriaeth sylfaenol. Gallech gael hyd at:
  - **£17.30** ychwanegol yr wythnos os ydych yn sengl
  - **£19.36** ychwanegol yr wythnos os ydych yn bâr.


## Cymorth ar gyfer Llog ar Forgais

Os ydych yn berchen ar eich cartref eich hun ac yn dal i dalu morgais, efallai eich bod yn gymwys i gael benthyciad Cymorth ar gyfer Llog ar Forgais o ganlyniad i fod yn gymwys ar gyfer Credyd Pensiwn. Gweler yr adran ar gymorth gyda chostau tai yn y canllaw hwn am ragor o wybodaeth (gweler tudalen 24).

## Sut ydwi i'n hawlio?

Gallwch hawlio Credyd Pensiwn trwy ffonio'r Gwasanaeth Pensiwn (gweler tudalen 50). Byddant yn gofyn cwestiynau i chi dros y ffôn ac yn llenwi'r ffurflen ar eich rhan. Fel arall, gofynnwch iddyn nhw anfon ffurflen wag drwy'r post, a gallwch chi ei llenwi eich hun. Bydd angen gwybodaeth benodol arnoch, fel eich rhif Yswiriant Gwladol (YG) a manylion eich cyfrif banc, incwm, cynilion a buddsoddiadau.

Erbyn hyn, gallwch wneud cais am Gredyd Pensiwn ar-lein hefyd ar [www.gov.uk/credyd-pensiwn/sut-i-wneud-cais](http://www.gov.uk/credyd-pensiwn/sut-i-wneud-cais), cyn belled â'ch bod eisoes wedi hawlio Pensiwn y Wladwriaeth ac nad oes unrhyw blant neu bobl ifanc wedi'u cynnwys yn eich cais.



Defnyddiwch ein cyfrifiannell budd-daliadau ar-lein: [www.agecymru.cymru/gwybodaeth-a-chyngor/mwy-o-arian-yn-eich-poced](http://www.agecymru.cymru/gwybodaeth-a-chyngor/mwy-o-arian-yn-eich-poced) i ddarganfod beth gallech dderbyn.

## Beth nesaf?

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, mae gennym ganllaw a thaflen ffeithiau sy'n llawn gwybodaeth am Gredyd Pensiwn. Mae'r daflen ffeithiau'n cynnig gwybodaeth fanylach.

Gallwch hefyd gysylltu â llinell hawlio Credyd Pensiwn ar **0800 99 1234** (neu ffôn destun **0800 169 0133**).

# Eich Cartref

**Gallai fod cymorth ariannol ar gael i'ch helpu i fyw'n ddiogel ac yn gyfforddus yn eich cartref eich hun.**



## Help gyda'r Dreth Gyngor

Mae'r Dreth Gyngor yn dreth ar sail eiddo sy'n cael ei thalu i awdurdodau lleol. Yn dibynnu ar eich sefyllfa, efallai y byddwch yn medru cael:

- help gyda'ch biliau drwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor eich awdurdod lleol
- eithriad rhag talu'r Dreth Gyngor
- gostyngiad anabledd y Dreth Gyngor
- disgownt y Dreth Gyngor.

## Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CGDG)

Mae CGDG eich awdurdod lleol yn darparu cymorth gyda biliau Treth Gyngor i bobl ar incwm isel. Mae'r meini prawf cymhwyso yn debyg ledled Cymru.

Gall y cymorth rydych chi'n ei dderbyn ddibynnu ar ffactorau fel:

- pa fudd-daliadau eraill rydych yn eu derbyn
- eich oedran
- eich incwm
- eich cynilion
- pwy sy'n byw gyda chi
- faint o'r Dreth Gyngor rydych chi'n ei thalu.

Efallai cewch chi mwy o gymorth gan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor os ydych yn derbyn budd-dal anabledd neu ofalwr.

- Os ydych yn derbyn Credyd Gwarant, efallai bydd eich Treth Gyngor yn cael ei thalu'n llawn. Os nad ydych yn derbyn Credyd Gwarant, ond mae gennych incwm isel a llai nag £16,000 o gynilion, efallai y byddwch yn medru cael ychydig o help.
- Os oes oedolyn yn byw gyda chi - er enghraifft mab neu ferch, ac mae rheolau'r budd-dal yn cymryd yn ganiataol eu bod yn cyfrannu tuag at filiau'r tŷ - bydd swm yn cael ei dynnu i ffwrdd o gyfanswm y CGDG byddwch chi'n ei dderbyn. Mae'r cyfanswm yn dibynnu ar amgylchiadau'r unigolyn sy'n byw gyda chi.

## Eithriadau

Efallai y byddwch yn gallu gwneud cais am eithriad:

- Os yw eich eiddo'n wag – er enghraifft, os ydych yn yr ysbyty, wedi symud i fyw mewn cartref gofal neu wedi symud i fyw gyda perthynas yn ei gartref ef/chartref hi er mwyn iddo ef/iddi hi ofalu amdanoch.
- Os ydych chi'n byw gyda dementia a rydych chi'n byw ar eich pen eich hun (gallai'r eithriad fod yn berthnasol os oes rhywun arall yn byw yn yr eiddo sydd yn byw gyda dementia, neu fath arall o 'nam meddyliol difrifol').
- Os yw'r eiddo'n rhandy i'r prif eiddo, cyn belled â bod yr unigolyn sy'n byw yn y rhandy yn **berthynas ddibynnol** i bwy bynnag sy'n byw ym mhrif ran y tŷ - er enghraifft, gallai hyn fod yn berthnasol pan fydd rhywun yn byw mewn 'rhandy nain' (mae perthynas ddibynnol yn golygu rhywun sy'n 65 oed neu'n hŷn, neu unrhyw un sydd â nam meddyliol difrifol neu anabledd sylweddol a/neu barhaol).

Nid yw'r uchod yn rhestr gynhwysfawr - gweler ein taflen ffeithiau *Treth y Cyngor yng Nghymru* am ragor o fanylion.

## Gostyngiad anabledd

Gallai'r cynllun hwn fod yn berthnasol os yw eich cartref yn cynnwys nodweddion sy'n ei wneud yn addas ar gyfer rhywun sy'n byw gydag anabledd. Nid yw eich incwm na'ch cynilion yn cael eu hystyried.

Bydd y cynllun yn berthnasol pan mae gan yr unigolyn anabl anabledd sylweddol a pharhaol (naill ai anabledd corfforol neu feddyliol), er nad oes rhaid iddo ef/iddi hi fod yn gyfrifol am dalu'r bil.

Os yw eich cartref yn gymwys i dderbyn gostyngiad anabledd, bydd eich bil yn cael ei ostwng un band. Er enghraifft, os yw eich cartref wedi'i brisio ym mand C, bydd rhaid i chi dalu'r swm ar gyfer eiddo band B yn unig.

## Disgowntiau

Os ydych yn byw ar eich pen eich hun, gallwch gael gostyngiad o 25 y cant ar fil y Dreth Gyngor, beth bynnag yw eich amgylchiadau ariannol.

Gallai disgownt fod yn berthnasol hefyd os oes mwy nag un oedolyn mewn aelwyd, ond mae amgylchiadau'r unigolyn arall yn golygu nad yw'n cael ei (h)ystyried at ddibenion y Dreth Gyngor.

Er enghraifft, bydd hyn yn berthnasol ar gyfer unrhyw un sydd â nam meddyliol difrifol neu sy'n gofalu am unigolyn yn yr un aelwyd, **nad yw'n bartner y sawl y mae'n gofalu amdano/ amdani** (byddai angen iddo ef/iddi hi fod yn darparu gofal am o leiaf 35 awr yr wythnos).

### Disgowntiau neu ostyngiadau yn ôl disgrisiwn

Gall awdurdodau lleol drefnu bod disgowntiau eraill ar gael yn eu hardal ar gyfer categorïau eiddo neu gategorïau o breswylwyr. Gofynnwch i'ch awdurdod lleol a oes unrhyw ddisgowntiau ychwanegol ar gael yn eich ardal chi.

## Sut ydw i'n hawlio?

Cysylltwch â'ch awdurdod lleol i drafod sut i ddod o hyd i gymorth gyda bil y Dreth Gyngor.

## Beth nesaf?

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, mae gwybodaeth ddefnyddiol ar gael yn ein taflen ffeithiau, *Y Dreth Gyngor yng Nghymru: gwybodaeth am y dreth a help gyda'ch bil*.

Gallwch hefyd ffonio Cyngor Age Cymru ar **0300 303 44 98**.

## Budd-dal tai a help gyda chostau tai

### Budd-dal Tai

Mae Budd-dal Tai yn helpu pobl ar incwm isel gyda chostau rhent. Bydd ffactorau gwahanol yn penderfynu faint o gymorth byddwch chi'n ei dderbyn:

- eich incwm
- eich cynilion
- pwy sy'n byw gyda chi
- faint o rent rydych yn ei dalu
- faint o ystafelloedd sydd yn eich cartref.

Efallai y byddwch yn derbyn mwy o Fudd-dal Tai os ydych yn derbyn budd-dal anabledd neu ofalwr.

- Os ydych yn derbyn rhan Credyd Gwarant y Credyd Pensiwn, efallai bydd y Budd-dal Tai yn talu eich rhent yn llawn. Os nad ydych yn derbyn Credyd Gwarant, ond mae eich incwm yn isel ac mae gennych lai nag £16,000 o gynilion, efallai y byddwch yn medru cael ychydig o help.
- Os oes rhywun yn byw gyda chi – er enghraifft, mab neu ferch sy'n oedolyn a disgwylir iddo/iddi gyfrannu at y rhent – fel arfer, bydd swm yn cael ei dynnu o'ch Budd-dal Tai. Mae'r swm hwn yn dibynnu ar eu hamgylchiadau.

## Sut ydw i'n hawlio?

Yn gyntaf, bydd angen i chi wybod pwy i gysylltu â nhw er mwyn gwneud hawliad:

- Os ydych wedi cyrraedd oed Pensiwn y Wladwriaeth, gallwch wneud hawliadau am Fudd-dal Tai a Chredyd Pensiwn ar yr un pryd. Fel arall, cysylltwch â'ch awdurdod lleol i gael gwybod sut i wneud cais.
- Os nad ydych wedi cyrraedd oed Pensiwn y Wladwriaeth eto ac hoffech gael cymorth gyda'ch rhent, mae'n debygol y bydd rhaid ichi hawlio Credyd Cynhwysol (gweler tudalen 44), sydd ag elfen cost cartref.

Bydd eich awdurdod lleol yn eich arwain drwy'r camau y mae angen i chi eu cymryd i wneud hawliad neu ffoniwch Cyngor Age Cymru ar **0300 303 44 98**.

### Taliadau tai yn ôl disgrisiwn

Os ydych yn derbyn Budd-dal Tai ond mae talu eich rhent yn parhau i fod yn her, gallwch wneud cais am daliad tai yn ôl disgrisiwn. Cysylltwch â'ch cyngor lleol i ofyn am ffurflen gais.

## Cymorth ar gyfer Llog Morgais

Os ydych yn berchen ar eich cartref eich hun, ni allwch hawlio Budd-dal Tai. Fodd bynnag, gallwch fod yn gymwys am Fenthyciad Cymorth ar gyfer Llog Morgais. Mae gan wefan GOV.UK fwy o wybodaeth ar:

**[www.gov.uk/cymorth-ar-gyfer-llog-morgais](http://www.gov.uk/cymorth-ar-gyfer-llog-morgais)**

## Lleihau biliau cyfleustodau

Gallech chi fod yn lleihau costau tai drwy chwilio am y bargenion gorau am drydan, nwy, dŵr neu becynnau ffôn a band eang. Efallai bydd tariff penodol ar gyfer pobl ar incwm isel. Edrychwch ar ein taflen wybodaeth *Chwilio am fargenion ynni a Cyngor am ddŵr* i gael rhagor o wybodaeth.



Mae tariffiau cymdeithasol band eang yn cael eu cynnig gan rai darparwyr (bargenion a gostyngiadau ar gyfer pobl sy'n derbyn budd-daliadau penodol fel Credyd Pensiwn neu Gredyd Cynhwysol). Cysylltwch â Chyngor Age Cymru neu Gyngor ar Bopeth i gael mwy o wybodaeth - ewch i dudalennau 47 a 48.

### Beth nesaf?

Os hoffech chi gael mwy o wybodaeth am Fudd-dal Tai a thaliadau tai yn ôl disgrisiwn, gweler ein taflen ffeithiau rhad ac am ddim, *Budd-dal Tai*.

Gallwch hefyd ffonio Cyngor Age Cymru ar **0300 303 44 98**.

## Help gyda chostau gwresogi: cartref cynhesach ar gyfer y gaeaf

Mae llawer ohonom yn poeni am gostau ynni, ond trwy beidio â gwresogi ein cartrefi'n ddigonol, rydym yn agored i glefydau sy'n gysylltiedig ag oerfel, megis trawiad ar y galon, strôc neu hypothermia hyd yn oed. Mae costau tanwydd uwch yn medru creu heriau wrth wresogi eich cartref - ond efallai bydd yr wybodaeth yn yr adran hon yn ddefnyddiol.

### Taliad Tanwydd Gaeaf

Mae'r Taliadau Tanwydd Gaeaf yn daliad blynyddol sy'n eich helpu chi gyda chostau gwresogi yn ystod y misoedd oeraf.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26, bydd y Taliadau ar gael ar gyfer:

- tŷ sy'n gartref i rywun cafodd ei eni **ar neu cyn 21 Medi 1959**;  
a
- mae'r person hynaf yn y tŷ yn derbyn **Credyd Pensiwn**, neu fudd-dal cymhwysol arall (er enghraifft Credyd Cynhwysol).

Os ydych chi'n hŷn nag oedran Pensiwn y Wladwriaeth ac rydych chi'n derbyn budd-dal cymhwysol, gallwch gael **£200** tuag at eich biliau. Os ydych chi'n hŷn nag 80 oed, gallwch gael **£300**. Mae taliadau ar gyfer y cartref, ac maen nhw'n cael eu talu i'r person sy'n hawlio'r fudd-dal.

Byddwch chi'n derbyn taliadau tanwydd gaeaf yn awtomatig os ydych chi'n derbyn Credyd Pensiwn neu fudd-daliadau cymhwysol eraill fel Credyd Cynhwysol. Byddwch chi'n derbyn llythyr gyda'r cyfanswm a'r dyddiad byddwch chi'n ei dderbyn (ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 mae'n debygol byddwch chi'n ei dderbyn rhwng Tachwedd 2025 ac Ionawr 2026).

Cysylltwch â Chanolfan y Taliadau Tanwydd Gaeaf ar **0800 731 0160** os hoffech chi holi cwestiwn am eich taliad.

### Taliad Tywydd Oer

Mae Taliadau Tywydd Oer yn cael eu talu i bobl gymwys pan mae'r tywydd yn oer iawn. Gallwch gael £25 ychwanegol yr wythnos pan fydd y tymheredd cyfartalog yn eich ardal yn, neu disgwylir iddo fod yn 0°C (32°F) neu'n is am saith niwrnod yn olynol rhwng mis Tachwedd a Mawrth.



Dylech dderbyn Taliad Tywydd Oer fel mater o drefn os ydych yn derbyn Credyd Pensiwn neu fudd-daliadau penodol eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Pensiwn os ydych chi'n teimlo y dylech chi fod yn derbyn y Taliad Tywydd Oer, ond dydych chi ddim wedi derbyn taliad (gweler tudalen 50).

### Disgownt Cartref Cynnes

Mae cynllun Disgownt Cartref Cynnes yn golygu bod eich bil trydan yn lleihau **£150** er mwyn helpu gyda chostau ynni yn ystod y gaeaf (weithiau gallwch newid y disgownt er mwyn lleihau eich bil nwy yn lle'r bil trydan). Nod y cynllun yw gwneud pethau'n hawsach ar gyfer pobl sy'n byw ar incwm neu bensiwn isel.

Ni fydd Disgownt Cartref Cynnes yn effeithio ar eich hawl i dderbyn Taliadau Tanwydd Gaeaf na'r Taliad Tywydd Oer.

Ar hyn o bryd - Mawrth 2025 - er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y Disgownt Cartref Cynnes, mae angen bod gennych chi neu'ch partner gyfrif gyda chyflenwr trydan penodol ac mae'n rhaid eich bod chi'n hawlio un o'r pethau canlynol:

- Adran Gwarant Credyd y Credyd Pensiwn; neu
- 'budd-dal cymhwyso' gwahanol (a chostau ynni uchel yn seiliedig ar asesiad o'ch tŷ gan y Llywodraeth - mae'r budd-daliadau cymhwysol eraill yn cynnwys adran Credyd Cynilion y Credyd Pensiwn, Credyd Cynhwysol a'r Budd-dal Tai.

Dewch o hyd i fwy o wybodaeth ar wefan GOV.UK:

**[www.gov.uk/cynllun-gostyngiad-cartrefi-cynnes](http://www.gov.uk/cynllun-gostyngiad-cartrefi-cynnes)**

### **Newidiadau posib i'r Disgownt Cartref Cynnes**

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y DU yn cynnal ymgynghoriad sy'n awgrymu dileu meini prawf 'costau ynni uchel' ar gyfer pobl sy'n derbyn budd-daliadau cymhwysol (ni fydd meini prawf cymhwysedd pobl sy'n derbyn Gwarant Credyd y Credyd Pensiwn yn newid). Os bydd y llywodraeth yn bwrw ymlaen gyda'r cynllun hwn, mi fydd yn weithredol o hydref/gaeaf 2025-2026 a bydd pob cartref lle mae'r unigolyn sy'n talu'r biliau, neu ble mae eu partner yn hawlio budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd, yn gymwys ar gyfer Disgownt Cartref Cynnes (heb yr amod costau ynni uchel).

Ewch i wefan GOV.UK i gael y wybodaeth ddiweddaraf, neu cysylltwch â Chyngor Age Cymru ar **0300 303 44 98**.



Defnyddiwch ein cyfrifiannell budd-daliadau ar-lein: ar [www.agecymru.cymru/gwybodaeth-a-chyngor/mwy-o-arian-yn-eich-poced/](http://www.agecymru.cymru/gwybodaeth-a-chyngor/mwy-o-arian-yn-eich-poced/) i ddarganfod pa fudd-daliadau y gallech chi fod yn eu derbyn.

## Cynlluniau eraill a allai leihau eich biliau gwresogi

Efallai bydd y pethau hyn yn eich helpu chi i wresogi eich cartref (a lleihau costau). Nid yw'r cynllun hwn yn eu trafod yn fanwl oherwydd nid budd-daliadau na hawliadau lles ydyn nhw - ond gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth fanwl yn y taflenni ffeithiau isod. Dyma'r help sydd ar gael:

- **Cynllun Cartrefi Cynnes 'Nyth' Llywodraeth Cymru** – mae'r cynllun hwn yn darparu cyngor ar effeithiolrwydd ynni. Mae gwelliannau effeithiolrwydd ynni ar gael ar gyfer pobl sy'n ateb meini prawf penodol (er enghraifft pwmp gwres, inswleiddio, paneli solar, atgyweiriadau i foeler neu foeler newydd os nad oes gennych chi wres na dŵr twym). Ewch i dudalen 49 i ddod o hyd i fanylion cyswllt.
- **Cymorth eraill gan Lywodraeth Cymru** – weithiau, mae Llywodraeth Cymru yn clustnodi arian er mwyn helpu pobl nad ydynt yn cwrdd â meini prawf cynlluniau eraill. Er enghraifft talebau ar gyfer pobl sy'n rhagdalau am danwydd ac sydd mewn perygl o gael eu datgysylltu, neu bobl sydd angen danfoniad o olew neu nwy (oherwydd dydyn nhw ddim wedi cael eu cysylltu gyda'r rhwydwaith nwy o'r prif gyflenwad). Mae'n bosib bydd sefydliadau fel eich awdurdod lleol, Cyngor ar Bopeth, elusennau sy'n cefnogi pobl mewn dyled, banciau bwyd neu grwpiau cymunedol eraill yn medru darparu cefnogaeth ychwanegol. Yn ystod adegau oer y flwyddyn mae'n bosib bydd 'Canolfannau Clud' ar gael (llefydd sy'n croesawu pobl o bob oedran, ble mae pobl yn medru defnyddio gwasanaethau a chyngor hanfodol, cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, a mwynhau diodydd poeth). Bydd y sefydliadau uchod yn medru darparu gwybodaeth am

ganolfannau clud yn eich ardal leol.

- **Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni** – Cynllun Llywodraeth y DU. Mae angen i gyflenwyr gymryd rhan drwy ariannu darpariaeth mesurau effeithlonrwydd gwresogi ac ynni mewn cartrefi.
- **Cronfeydd ac ymddiriedolaethau elusennol cyflenwyr ynni** – efallai bydd cronfeydd ac ymddiriedolaethau elusennol cyflenwyr ynni yn medru cynorthwyo pobl sy'n wynebu argyfwng. Mae meini prawf yn amrywio o gynllun i gynllun, ond yn gyffredinol byddan nhw'n cynorthwyo pobl sydd ag incwm a chynilion cyfyngedig, neu bobl sy'n byw gyda chyflyrau iechyd tymor hir neu gronig.
- **Cynlluniau awdurdodau lleol sy'n helpu i ariannu gwelliannau neu atgyweiriadau yn y cartref** – er enghraifft Gorchymyn Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl neu bwerau eraill sydd gan lleol er mwyn gwella chyflyrau byw.
- **Gofal a Thrwsio Cymru** – sefydliadau elusennol sy'n darparu cefnogaeth ar gyfer pobl hŷn er mwyn eu galluogi i aros yn eu cartrefi a byw'n annibynnol am gyfnodau hirach. Maen nhw'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau, yn cynnwys Hynach nid Oerach sy'n cefnogi pobl hŷn i gynhesu eu cartrefi a lleihau eu biliau ynni (ewch i dudalen 47 er mwyn dod o hyd i fanylion cyswllt).

### Beth nesaf?

Mae'r canllawiau a'r taflenni ffeithiau isod yn darparu gwybodaeth am rai o'r materion sy'n cael eu trafod yn yr adran hon:

- Canllaw gwybodaeth Y Gaeaf
- Taflen wybodaeth Help gyda chostau gwresogi yng Nghymru
- Taflen ffeithiau gwelliannau ac atgyweiriadau ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru.

Gallwch chi hefyd gysylltu â Chyngor Age Cymru ar **0300 303 44 98**.

# Eich Lles

**Gall arian ychwanegol eich helpu chi i ofalu am eich hun ac aros yn annibynnol - felly mae'n bwysig i hawlio'r cymorth sydd ar gael.**

## Help gyda chostau brys neu gostau unigol

Os ydych yn wynebu cost nad ydych yn medru ei thalu oherwydd eich bod chi ar incwm isel, neu oherwydd eich bod chi'n byw heb unrhyw arian o gwbl am ryw reswm, mae help ar gael.

- Gall **Taliad Costau Angladd** helpu os ydych yn gyfrifol am dalu am angladd – er enghraifft costau claddau neu amlosgi a chostau'r trefnydd angladdau.

Mae mwy o wybodaeth am hyn yn ein canllaw *Pan fydd rhywun yn marw*, a'r daflen ffeithiau *Cynllunio ar gyfer angladd*.

- Os ydych chi'n derbyn Credyd Pensiwn ac mae angen talu am rywbeth hanfodol, mae'n bosib bydd **Benthyciad Cyllidebu** yn ddefnyddiol. Bydd angen i chi ad-dalu'r benthyciad gyda'ch budd-daliadau wythnosol.
- Gall **Blaenswm Tymor Byr** eich helpu chi yn ystod y cyfnod ar ôl i chi wneud cais a chyn i chi dderbyn y budd-dal. Fel arfer, bydd angen i chi ad-dalu'r arian dros gyfnod penodol gyda'ch budd-daliadau wythnosol.
- Mae'n bosib gallwch gael cymorth gan y **Gronfa Cymorth Dewisol** os oes angen cymorth arnoch ar frys a dydych chi ddim yn medru dod o hyd i unrhyw gymorth neu gyllid arall. Dim ond ar gyfer anghenion hanfodol ac eitemau lle gallai eich iechyd a'ch llesiant fod mewn perygl fel arall y gellir ei ddefnyddio. Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol yn gynllun cenedlaethol yng Nghymru. Os byddwch chi'n cael help, byddwch yn cael grant na fydd yn ad-daladwy. Efallai na fyddwch chi'n cael arian parod, efallai y byddwch yn cael cerdyn rhagdal.

## Mwy o wybodaeth am y meini prawf cymhwyso a help gyda chostau brys neu gostau untro

- Fel arfer, bydd angen i chi fod yn derbyn budd-daliadau penodol, fel Credyd Pensiwn neu Fudd-dal Tai, er mwyn bod yn gymwys ar gyfer cynlluniau gwahanol.
- I fod yn gymwys ar gyfer Blaenswm Tymor Byr, bydd angen i chi ddangos eich bod chi mewn angen ariannol.
- Os oes gennych dros £2,000 o gynilion, bydd yn effeithio ar eich cymhwyster i dderbyn Benthyciad Cyllidebu. Nid oes unrhyw derfynau cynilion ar gyfer Taliad Costau Angladd.
- Mae dwy ran i'r Gronfa Cymorth Dewisol:
  - Mae **Taliadau Cymorth Unigol** yn helpu pobl i barhau i fyw gartref yn annibynnol, neu'n helpu i leddfu pwysau eithriadol - er enghraifft, anghenion cynyddol yn sgil salwch cronig, anabledd neu ddamwain. Gallech fod yn gymwys i dderbyn help os ydych yn derbyn budd-dal lles sy'n Gysylltiedig ag incwm, fel Credyd Pensiwn neu Gredyd Cynhwysol. Fodd bynnag, bydd dyfarniad Taliad Cymorth Unigol yn cael ei leihau, 'ar sail punt am bunt', ar gyfer unrhyw gynilion/cyfalaf sydd gennych chi neu eich partner.
  - Mae **Taliadau Cymorth Brys** ar gael os ydych chi'n profi 'caledwch ariannol eithafol' - er enghraifft, rydych chi wedi colli eich swydd, wedi gwneud cais am fudd-daliadau ac rydych chi'n aros am eich taliad cyntaf. Efallai bydd taliadau ar gael os ydych chi mewn sefyllfa argyfyngus ac rydych chi angen cefnogaeth ariannol ar frys - er enghraifft, does gennych chi ddim arian i brynu bwyd, nwy na thrydan, does gennych chi ddim mynediad at roddwyr benthyciadau cyfrifol a chyfreithiol (er enghraifft undebau credyd), a does gennych chi ddim cynilion.

## Sut ydw i'n hawlio?

I wneud cais am Daliadau Costau Angladd, Benthyciadau Cyllidebu a Blaensymiau Tymor Byr, cysylltwch â'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol (ewch i dudalen 49 er mwyn dod o hyd i fanylion cyswllt).

Mae manylion cyswllt y Gronfa Cymorth Dewisol i'w cael ar dudalen 48.

## Banciau bwyd a thalebau

Mae'r Trussell Trust yn cefnogi rhwydwaith o fanciau bwyd, ac yn darparu bwyd mewn sefyllfaoedd argyfyngus. Mae angen i bobl gael eu cyfeirio at fanc bwyd gyda thaleb. Mae nifer o sefydliadau cymunedol lleol a gweithwyr gofal proffesiynol (er enghraifft, meddyg neu weithiwr cymdeithasol) yn medru darparu'r talebau.

## Beth nesaf?

Mae yna ragor o wybodaeth yn ein taflen ffeithiau *Y Gronfa Gymdeithasol, Blaensymiau Budd-dal a Darpariaeth Lles Lleol* neu cysylltwch â Chyngor Age Cymru ar **0300 303 44 98**.



## Help gyda chostau iechyd

Mae presgripsiynau'r GIG yn rhad ac am ddim i bobl o bob oed yng Nghymru.

Mae gan unrhyw un dros 60 oed hawl i brawf llygaid y GIG yn rhad ac am ddim a gwiriad deintyddol y GIG yn rhad ac am ddim hefyd.

### Ydych chi'n hawlio Credyd Gwarant Credyd Pensiwn?

Os ydych yn derbyn Credyd Gwarant y Credyd Pensiwn, byddwch hefyd yn cymhwyso **fel mater o drefn** i dderbyn yr isod:

- triniaeth ddeintyddol y GIG yn rhad ac am ddim
- taleb tuag at gost sbectol neu lensys cyffwrdd
- help gyda chostau teithio angenrheidiol i dderbyn triniaeth gan y GIG neu brofion diagnostig mewn ysbyty (neu sefydliad cyfwerth, yn amodol ar eich amgylchiadau unigol). Mae hyn yn cynnwys teithio ar ôl cael eich atgyfeirio gan feddyg teulu neu ddeintydd, neu o ganlyniad i wasanaethau dilynol dan ofal meddyg ymgynghorol arbenigol mewn ysbyty.

Bydd angen i chi ddangos eich Hysbysiad Dyfarnu'r Credyd Pensiwn fel tystiolaeth o'ch hawlogaeth (bydd y Gwasanaeth Pensiwn yn ei anfon drwy'r post). Os nad ydych chi'n medru dod o hyd i'ch llythyr, gofynnwch am gopi drwy ffonio'r Gwasanaeth Pensiwn (Mae manylion cyswllt ar dudalen 50).

### Cynllun Incwm Isel y GIG

Os nad ydych yn derbyn Credyd Gwarant y Credyd Pensiwn, ond rydych chi ar incwm isel ac mae gennych chi llai nag £16,000 o gynilion (naill ai ar eich pen eich hun neu ar y cyd os ydych yn bâr), efallai bydd help ar gael trwy Gynllun Incwm Isel y GIG. Os ydych yn byw mewn cartref gofal yn barhaol, y terfyn cynilion yw £24,000.

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ar 0300 330 1343 neu ewch i <https://llyw.cymru/cynllun-incwm-isel-cymorth-gyda-chostau-iechyd-y-gig>

Bydd angen i chi lenwi ffurflen gais HC1W. Ffoniwch Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ar y rhif ffôn uchod i gael copi o ffurflen HC1W (yn cynnwys copïau â phrint bras a ffurfiau eraill), neu gofynnwch am gopi wrth eich deintydd, optegydd neu ysbyty'r GIG.

### Beth nesaf?

Mae rhagor o wybodaeth yn ein taflen ffeithiau *Help gyda chostau iechyd yng Nghymru*. Gofynnwch i'ch cangen Age Cymru leol am rhagor o wybodaeth neu gofynnwch am help i lenwi'r ffurflen.



# Lwfans Gweini: arian ar gyfer eich anghenion gofal

Mae Lwfans Gweini yn fudd-dal ar gyfer pobl hŷn sydd angen mwy o gymorth i fod yn annibynnol gartref oherwydd salwch neu anabledd.

## Nid yw'r Lwfans Gweini yn dibynnu ar brawf modd. Nid yw'r Lwfans Gweini'n dibynnu ar eich incwm na'ch cynilion.

Bydd y gyfradd rydych chi'n ei derbyn yn dibynnu ar yr help sydd ei angen arnoch. Y peth pwysig yw bod angen help arnoch chi, felly nid oes angen eich bod chi'n derbyn help ar y pryd. Gallwch wario'r arian ar ofal neu ofalwr, neu mewn unrhyw ffordd arall y dymunwch.

Mae dwy gyfradd wythnosol:

- **£73.90** (cyfradd isel) os oes angen help arnoch naill ai yn ystod y dydd **neu** yn ystod y nos
- **£110.40** (cyfradd uchel) os oes angen help arnoch yn ystod y dydd **ac** yn ystod y nos

Os ydych yn gymwys ar gyfer Lwfans Gweini, mae'n bosibl y cewch arian ychwanegol gyda Chredyd Pensiwn a Budd-dal Tai.

**Y peth pwysig yw bod angen help arnoch chi; nid oes angen eich bod chi'n derbyn help ar y pryd.**

## A fedra i hawlio?

Mae hawlio Lwfans Gweini'n dibynnu ar y pethau hyn:

- Mae angen eich bod chi'n hŷn nag oedran Pensiwn y Wladwriaeth.
- Mae gennych chi unrhyw fath o anabledd, salwch neu gyflwr hirdymor, gan gynnwys nam ar y golwg neu'r clyw.
- Rydych chi angen cymorth gyda gofal personol, fel gwisgo ac ymolchi, neu oruchwyliaeth i'ch cadw'n ddiogel, yn ystod y dydd neu'r nos (hyd yn oed os nad ydych chi'n derbyn unrhyw help ar hyn o bryd).
- Bu angen cymorth arnoch am o leiaf chwe mis (er os ydych yn derfynol sâl, gallwch hawlio ar unwaith).

Os ydych chi'n iau nag oedran Pensiwn y Wladwriaeth, efallai y byddwch chi'n medru derbyn budd-dal arall o'r enw Taliad Annibyniaeth Personol, yn hytrach na Lwfans Gweini - ewch i dudalen 43 i gael mwy o wybodaeth.

Os ydych chi eisoes yn hawlio Lwfans Byw i'r Anabl neu Daliad Annibyniaeth Personol, byddwch yn parhau i dderbyn y taliadau hyn pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Os gofynnwyd i chi hawlio Lwfans Gweini yn lle eich budd-dal presennol, cysylltwch â'ch cangen Age Cymru leol, neu ffoniwch Cyngor Age Cymru ar **0300 303 44 98**.

## Sut ydw i'n hawlio?

Gofynnwch am ffurflen gais drwy ffonio llinell gymorth y Lwfans Gweini (gweler tudalen 47). Gallwch lawrlwytho ffurflen gais neu gychwyn cais ar-lein hefyd: **[www.gov.uk/lwfans-gweini](http://www.gov.uk/lwfans-gweini)**

## Beth nesaf?

Mae rhagor o wybodaeth yn ein taflen ffeithiau *Lwfans Gweini*. I gael help i wneud cais, cysylltwch â'ch cangen Age Cymru leol (neu ffoniwch Cyngor Age Cymru i gael rhagor o fanylion). Gweler tudalennau 37-40 i gael awgrymiadau ynghylch beth i'w gynnwys yn eich cais.

## Gwneud cais am Lwfans Gweini

Mae'r rhan fwyaf o benderfyniadau ynghylch Lwfans Gweini yn dibynnu'n gyfan gwbl ar beth rydych chi'n ei roi ar y ffurflen gais, felly peidiwch â thanamcangyfrif na bychanu eich anghenion. Ystyriwch yr holl bethau nad ydych yn gallu eu gwneud, a'r pethau sy'n anodd i'w gwneud, oherwydd eich cyflwr. Dyma gyngor am sut i lenwi eich ffurflen:

- Disgrifiwch unrhyw ddamweiniau neu gwympiadau rydych chi wedi eu cael wrth geisio gwneud pethau (neu adegau eraill pan rydych chi wedi cael niwed).
- Os ydych chi'n cael diwrnodau da a diwrnodau gwael, soniwch am un o'r diwrnodau gwael, gan sôn am ba mor aml maen nhw'n digwydd. Mae cadw dyddiadur am gyfnod byr yn ffordd ddefnyddiol o sicrhau eich bod chi'n meddwl am bopeth.
- Rhestrwch y pethau rydych chi'n ei chael hi'n anodd eu gwneud heb gymorth, hyd yn oed os ydych chi wedi datblygu ffyrdd arbennig i ymdopi â gweithgareddau penodol. Soniwch am weithgaredd sy'n anodd i'w gwneud oherwydd eich anabledd, neu weithgaredd sy'n anodd i'w gwneud yn ddiogel. Hefyd, nodwch os oes angen i rywun eich annog neu eich atgoffa cyn eich bod chi'n cofio gwneud pethau.

- Pwysleisiwch beth nad ydych yn gallu ei wneud yn hytrach na beth rydych yn gallu ei wneud. Beth fydd yn digwydd os na fyddwch yn derbyn yr help sydd ei angen arnoch? Os yw hyn wedi digwydd yn y gorffennol, rhowch enghreifftiau.
- Canolbwyntiwch ar ba mor aml y mae angen help arnoch. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer cyfradd is y Lwfans Gweini, rhaid i chi ddangos bod angen help arnoch yn aml, yn ystod y dydd neu gyda'r nos.
- Rhowch ddigon o wybodaeth yn eich geiriau eich hun am eich amgylchiadau personol, hyd yn oed os yw'n rhywbeth sy'n teimlo'n ddi-bwys, neu sy'n codi cywilydd. Peidiwch â phoeni os oes angen i chi ailadrodd.
- Atodwch unrhyw wybodaeth ategol, fel llythyrau wrth eich meddyg, eich cynllun gofal neu restr o bresgripsiynau.
- Cysylltwch ag elusen sy'n darparu cymorth i bobl sy'n byw gyda'r un cyflwr â chi, i ofyn am gyngor penodol am beth i'w gynnwys ar y ffurflen hawlio.

Cofiwch nad yw penderfyniadau am geisiadau Lwfans Gweini yn ystyried problemau sy'n gysylltiedig â gwaith tŷ, siopa neu arddio – gallwch eu cynnwys yn eich cais, ond peidiwch â threulio gormod o amser yn sôn amdanynt.



## **Anghenion gofal cyffredin i'w cynnwys yn eich cais am Lwfans Gweini**

Dyma rai enghreifftiau o beth i'w ystyried wrth esbonio eich anghenion gofal.

### **Ymolchi, cael bath a gofalu am eich golwg**

A oes angen help arnoch i fynd i mewn ac allan o'r bath neu gawod; addasu rheolyddion y gawod; eillio; defnyddio eli croen; golchi neu sychu eich gwallt? Oes angen eich atgoffa chi pan mae'n bryd i chi ymolchi?

### **Mynd i'r tŷ bach**

Ydych chi angen help gyda'ch dillad ar ôl bod i'r tŷ bach? Neu ydych chi angen help i ddefnyddio'r tŷ bach yn ystod y nos ac/ neu i newid eich dillad neu'r dillad gwely petai fod angen?

### **Gwisgo neu ddadwisgo**

A oes angen help arnoch gyda ffasninau, lasys a botymau (er enghraifft oherwydd arthritis), neu help i wneud yn siŵr bod eich dillad yn daclus?

### **Amser bwyd**

A oes angen unrhyw help arnoch i fwyta ac yfed? Er enghraifft, os ydych chi wedi colli eich golwg, a oes angen i rywun egluro ble mae'r bwyd ar eich plât, neu i ddarllen bwydlenni?

### **Help gyda thriniaeth feddygol**

A oes angen help arnoch i adnabod eich tabledi; darllen a deall cyfarwyddiadau ynghylch cymryd meddyginiaeth; rheoli cyflwr fel diabetes; sylwi punai fod eich cyflwr yn gwaethygu neu addasu eich cymorth clyw?

### **Cyfathrebu**

Ydych chi angen help er mwyn deall neu glywed pobl eraill, neu i wneud yn siŵr eu bod nhw'n eich deall chi? Neu ydych chi angen help i ateb y ffôn, neu i ddarllen ac ysgrifennu llythyrau?

## Goruchwyliaeth

A oes angen rhywun i'ch gwyllo chi rhag ofn eich bod chi'n cael trawiad neu lewygu. Neu, ydych chi angen rhywun i'ch cefnogi chi rhag ofn eich bod chi'n mynd yn ddryslyd neu'n anghofus? Ydych chi'n peryglu eich bywyd chi, neu fywydau'r bobl o'ch cwmpas, er enghraifft, ydych chi'n anghofio cloi'r drws neu'n anghofio diffodd y nwy? Oes angen i rywun eich helpu chi i gymryd eich meddyginiaeth?

## Symud o gwmpas yn ddiogel

A oes angen help arnoch i ddefnyddio grisiau; codi o gadair; mynd i mewn ac allan o'r gwely neu symud yn ddiogel o un ystafell i'r llall?

## Beth os caiff fy nghais am Lwfans Gweini ei wrthod?

Os caiff eich cais ei wrthod, gofynnwch i asiantaeth gyngori, fel Age Cymru, a ddylech chi herio'r penderfyniad. Edrychwch ar yr holl anghenion cyffredin sydd wedi eu rhestru uwchben. Ydych chi wedi cynnwys pob un ohonynt?

Cofiwch y gall eich anghenion newid a chynyddu, felly hyd yn oed os nad ydych yn gymwys i dderbyn Lwfans Gweini nawr, efallai y byddwch yn gallu ei hawlio'n llwyddiannus yn y dyfodol.

### CHWALU CHWEDL

'Ni fedra i  
hawlio Lwfans  
Gweini oherwydd  
does gen i ddim  
gofalwr.'



### REALITI

Mae Lwfans Gweini yn seiliedig ar y cymorth sydd ei angen, nid y cymorth rydych chi'n ei dderbyn.



# Lwfans Gofalwr: arian ychwanegol i helpu gyda gofalu

Os ydych yn gofalu am rywun ag anabledd neu broblem iechyd, efallai y gallwch hawlio Lwfans Gofalwr. Gall hyn fod yn wir hyd yn oed os nad ydych yn ystyried eich hunan yn 'ofalwr', o reidrwydd.

Mae Lwfans Gofalwr yn **£83.30** yr wythnos.

## A fedra i hawlio?

- Mae angen i chi fod yn treulio o leiaf 35 awr yr wythnos yn gofalu am rywun. Does dim ots os ydych chi'n byw gyda'r unigolyn ai peidio.
- Rhaid i chi fod yn gofalu am rywun sy'n derbyn Lwfans Gweini, elfen ofalu Lwfans Byw i'r Anabl (ar y gyfradd uwch neu ganolig), elfen bywyd bob dydd y Taliad Annibyniaeth Bersonol (ar y naill gyfradd), Taliad Annibyniaeth y Lluedd Arfog neu Lwfans Gweini Cyson.
- Rhaid i chi beidio â bod mewn addysg llawn amser nac yn ennill mwy na £196 yr wythnos (ar ôl treth a threuliau).

## Os ydych yn gymwys am Lwfans Gofalwr ond mae eich Pensiwn y Wladwriaeth yn fwy na £83.30 yr wythnos, byddwch yn gymwys am 'hawl sylfaenol' yn unig.

Mae hyn yn golygu na fydd Lwfans Gofalwr yn cael ei dalu i chi, ond gallai'r hawl sylfaenol eich helpu i fod yn gymwys i gael budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd, fel Credyd Pensiwn, Budd-dal Tai, neu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor eich awdurdod lleol (neu os ydych chi eisoes yn derbyn y budd-daliadau hyn, gallai ganiatáu i chi dderbyn swm yn fwy). Gallai rheolau'r hawl sylfaenol helpu llawer o ofalwyr, yn enwedig y rhai sydd dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

**Hefyd, mae'n bwysig bod yn ymwybodol bod y person rydych chi'n gofalu amdano yn gallu colli arian, mewn rhai sefyllfaoedd, os byddwch chi'n dechrau cael Lwfans Gofalwr** – er enghraifft, gall hyn ddigwydd os yw'r unigolyn yn derbyn premiwm anabledd difrifol fel rhan o'i Gredyd Pensiwn. Fodd bynnag, os ydych chi'n cael derbyn hawl sylfaenol i Lwfans Gofalwr yn unig, ni ddylai hyn effeithio ar y premiwm anabledd difrifol.

**Siaradwch â'ch cangen Age Cymru leol, neu ffoniwch Gyngor Age Cymru ar 0300 303 44 98 os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch cyn hawlio.**

### **Sut gallaf i hawlio?**

Cysylltwch â'r Uned Lwfans Gofalwr (gweler tudalen 48) am ffurflen gais. Neu, gallwch lawrlwytho ffurflen neu wneud cais ar-lein: **[www.gov.uk/lwfans-gofalwr](http://www.gov.uk/lwfans-gofalwr)**

#### **Beth nesaf?**

Mae rhagor o wybodaeth yn ein canllawiau *Lwfans Gofalwr, Cyngor i Ofalwyr a Gofalu am rywun â dementia.*



# Budd-daliadau oedran gweithio

**Os ydych chi o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth, gallech fod yn gymwys i dderbyn budd-daliadau eraill:**

## Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP)

Mae'r Taliad Annibyniaeth Bersonol yn fudd-dal i bobl o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth sydd angen help gyda gweithgareddau bob dydd neu help i symud o gwmpas oherwydd salwch neu anabledd hirdymor. Nid yw wedi'i seilio ar eich cyfraniadau Yswiriant Gwladol nac yn ddibynnol ar brawf modd, felly does dim ots faint o incwm na chynilion sydd gennych.

Mae dwy ran i'r PIP – elfen bywyd bob dydd ac elfen symudedd. Mae'r help sydd ei angen arnoch yn penderfynu p'un a fyddwch chi'n cael un rhan neu dwy ran.

### Yr elfen bywyd bob dydd

Gallwch gael yr elfen bywyd bob dydd os oes angen help arnoch i gyflawni tasgau bob dydd, fel paratoi bwyd a diod, gwisgo a dadwisgo, neu gymryd meddyginiaethau. Mae cyfradd safonol a chyfradd uwch, a bydd y gyfradd a gewch yn dibynnu ar eich anghenion. Y cyfraddau wythnosol yw:

- **£73.90** am gyfradd safonol
- **£110.40** am gyfradd uwch

### Yr elfen symudedd

Gallwch gael yr elfen symudedd os oes angen help arnoch i symud o gwmpas. Mae cyfradd safonol a chyfradd uwch ar gyfer yr elfen hon hefyd, a bydd y gyfradd a gewch yn dibynnu ar eich anghenion. Y cyfraddau wythnosol yw:

- **£29.20** am gyfradd safonol
- **£77.05** am gyfradd uwch

## Beth nesaf?

Mae mwy o wybodaeth yn ein taflen wybodaeth *Taliad Annibyniaeth Personol a Lwfans Byw i'r Anabl*.

## Credyd Cynhwysol

Budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd yw Credyd Cynhwysol, sy'n cael ei dalu i bobl dan oed Pensiwn y Wladwriaeth. Mae'r fudd-dal yn dibynnu ar nifer o bethau, fel faint o oriau rydych chi'n eu gweithio, faint rydych chi'n ei ennill a'ch cynilion.

Gweler ein canllaw *Credyd Cynhwysol* am ragor o wybodaeth.

Os ydych yn bâr oed cymysg, (sy'n golygu mai dim ond un ohonoch sydd dros oed Pensiwn y Wladwriaeth), fel arfer, rhaid i chi hawlio Credyd Cynhwysol tan i'r ddau ohonoch gyrraedd oed Pensiwn y Wladwriaeth. Yna, gallwch hawlio Credyd Pensiwn.

Gall parau oed cymysg sydd eisoes yn hawlio Credyd Pensiwn barhau i'w hawlio cyn belled a'u bod yn gymwys.

### Terfyn budd-daliadau

Mae'r terfyn budd-daliadau yn gyfyngiad ar faint y gallwch ei dderbyn mewn budd-daliadau os ydych yn iau nag oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Mae hyn yn golygu os yw cyfanswm y budd-daliadau penodol a gewch yn uwch na'r terfyn cap budd-daliadau, bydd rhywfaint o arian yn cael ei dynnu oddi ar eich Budd-dal Tai neu Credyd Cynhwysol. Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau neu eich awdurdod lleol yn cysylltu â chi os bydd y terfyn budd-daliadau yn effeithio arnoch chi. Mae'r terfyn budd-daliadau yn dibynnu ar ble rydych yn byw ac os ydych yn byw ar eich pen eich hun neu gyda rhywun arall.

Bydd pobl benodol o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth wedi'u heithrio o'r terfyn budd-daliadau: er enghraifft, os ydyn nhw, neu unrhyw un sy'n byw gyda nhw, yn derbyn budd-dal anabled. Ewch i [www.gov.uk/cap-ar-fudd-daliadau](http://www.gov.uk/cap-ar-fudd-daliadau) gael rhagor o wybodaeth.

### Beth nesaf?

“Mae mwy o wybodaeth am fudd-daliadau yn ein taflen ffeithiau: *Budd-daliadau ar gyfer pobl sy'n iau nag oedran Pensiwn y Wladwriaeth.*”

# Chwalu'r chwedlau

Mae rhai pobl ar eu colled oherwydd eu bod nhw'n credu, ar gam, nad ydynt yn gymwys, neu bod y broses ymgeisio yn rhy gymhleth.

**A oes un o'r rhain yn berthnasol i chi?**



Gall y terfyn incwm a chynilion ar rai budd-daliadau **fod yn uwch** na'r disgwyl, ac nid yw rhai ohonynt, fel Lwfans Gweini, yn ystyried eich incwm o gwbl.



**Nid yw perchen ar eich cartref yn eich eithrio chi.** Mae llawer o berchnogion tai hŷn yn gwneud ceisiadau llwyddiannus am bethau fel Credyd Pensiwn.



‘Rydw i’n  
**iawn hebddo.**’

Rydych chi wedi talu i mewn i’r system dreth trwy gydol eich oes. Nawr mae’n bryd i chi gael rhywbeth yn ôl. Ystyriwch pa gymorth ac offer a allai eich helpu chi i barhau i fyw’n annibynnol adref.



‘Mae gwneud cais yn rhy  
**anodd.**’

Ar gyfer rhai budd-daliadau, fel Credyd Pensiwn, un galwad ffôn sydd angen i chi wneud, ac ni fydd angen i chi lenwi ffurflen. Os oes ffurflen i’w llenwi, gofynnwch i’ch cangen Age Cymru leol am help.



‘Dydw i ddim eisiau gofalwr yn  
fy **nghartref**’

Nid yw hawlio Lwfans Gweini yn golygu bod rhaid i chi dalu am ofalwr. Gallwch wario’r arian fel y mynnoch.



‘Rwyf eisoes wedi cael gwybod **nad wyf yn gymwys.**’

Mae cyfraddau budd-daliadau yn newid bob blwyddyn, fel y gall eich arian, felly gallai fod yn werth gwneud cais newydd bob blwyddyn.

# Sefydliadau defnyddiol

## Age Cymru

Rydym yn darparu gwybodaeth a chyngor i bobl yn hwyrach mewn bywyd drwy ein llinell gyngor ddwyieithog, cyhoeddiadau ac ar-lein. I gael gwybod ble mae cangen Age Cymru yn eich ardal chi ac i archebu copïau o'n canllawiau gwybodaeth a thafenni ffeithiau, ffoniwch:

**Cyngor Age Cymru 0300 303 44 98 (9am tan 4pm, Llundun - Gwener) neu anfonwch e-bost at: [cyngor@agecymru.org.uk](mailto:cyngor@agecymru.org.uk)**

Gallwch hefyd gysylltu â ni drwy anfon llythyr: Age Cymru, Llawr Gwaelod, Tŷ'r Mariners, Llys Trident, Ffordd Ddwyrain Moors, Caerdydd CF24 5TD.

**Gwefan: [www.agecymru.cymru/cyngor](http://www.agecymru.cymru/cyngor)**

## Llinell gymorth Lwfans Gweini

Pecynnau ymgeisio ar gyfer Lwfans Gweini.

Ffôn: 0800 731 0122

Ffôn testun: 0800 731 0317

[www.gov.uk/lwfans-gweini](http://www.gov.uk/lwfans-gweini)

## Gofal a Thrwsio Cymru

Mae Gofal a Thrwsio Cymru'n gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn gartrefi diogel ac addas ar gyfer eu hanghenion. Mae yna rwydwaith o asiantaethau Gofal a Thrwsio ledled Cymru. Maen nhw'n gweithredu gwasanaeth Hynach nid Oerach sy'n cefnogi pobl hŷn i gadw eu cartrefi'n gynnes a lleihau cyfanswm eu biliau.

Ffôn: 029 2010 7580

E-bost: [enquiries@careandrepair.org.uk](mailto:enquiries@careandrepair.org.uk)

[www.careandrepair.org.uk](http://www.careandrepair.org.uk)

[www.careandrepair.org.uk/oldernotcolder](http://www.careandrepair.org.uk/oldernotcolder)

## **Uned Lwfans Gofalwr**

Maen nhw'n darparu gwybodaeth am Lwfans Gofalwr, gan gynnwys cymhwysedd a sut i wneud cais.

Ffôn: 0800 731 0297

Ffôn testun: 0800 731 0317

[www.gov.uk/lwfans-gofalwr](http://www.gov.uk/lwfans-gofalwr)

## **Gofalwyr Cymru**

Elusen sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ymarferol ac emosiynol i ofalwyr.

Ffôn: 029 2081 1370

Llinell gymorth: 0808 808 7777

[www.carerswales.org](http://www.carerswales.org)

## **Cyngor ar Bopeth**

Canolfannau cynghori sy'n cynnig cyngor yn rhad ac am ddim. Mae'r cyngor yn gyfrinachol ac annibynnol, a gellir ei ddarparu wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.

Ffôn: 0800 702 2020

I ddod o hyd i'ch fanylion am eich canolfan Cyngor ar Bopeth agosaf, ewch i [www.citizensadvice.org.uk/cymraeg](http://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg)

## **Cronfa Cymorth Dewisol**

I wneud cais am daliad Cymorth Mewn Argyfwng neu am Daliad Cymorth Unigol cysylltwch â:

Ffôn: 0800 859 5924

[www.llyw.cymru/cronfa-cymorth-dewisol-daf](http://www.llyw.cymru/cronfa-cymorth-dewisol-daf)

## **Canolfan Pensiwn y Dyfodol**

Dyma wasanaeth sy'n cael ei gynnig gan y Llywodraeth er mwyn darparu rhagolwg am eich Pensiwn y Wladwriaeth (maen nhw'n amcangyfrif cyfanswm eich pensiwn, yn seiliedig ar eich cofnod Yswiriant Gwladol presennol). Os ydych chi dros 50 oed, gallwch ofyn am ragolwg ar bapur drwy ffonio Canolfan Pensiwn y Dyfodol, neu gall unrhyw un dros 18 oed gael amcangyfrif gan y wefan.

Ffôn: 0800 731 0175

[www.gov.uk/gwirio-eich-pensiwn-y-wladwriaeth](http://www.gov.uk/gwirio-eich-pensiwn-y-wladwriaeth)



## **GOV.UK**

Hon yw gwefan swyddogol Llywodraeth y DU, sy'n darparu gwybodaeth am wasanaethau cyhoeddus fel budd-daliadau, swyddi a phensiynau.

[www.gov.uk/cymraeg](http://www.gov.uk/cymraeg)

## **LLYW.CYMRU**

Gwefan Llywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys gwybodaeth am feysydd sydd wedi'u datganoli yng Nghymru.

[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)

## **Cyllid a Thollau EF (HMRC)**

Gwiriwch y bylchau yng nghofnod eich Yswiriant Gwladol drwy wneud cais am ddatganiad gan HMRC.

Ffôn: 0300 200 3500

[www.gov.uk/gwirio-cofnod-yswiriant-gwladol](http://www.gov.uk/gwirio-cofnod-yswiriant-gwladol)

## **Y Ganolfan Byd Gwaith**

Gwybodaeth am Daliadau Angladd, Benthyciadau Cyllidebu a Blaensymiau Tymor Byr.

[www.gov.uk/cysylltu-canolfan-byd-gwaith](http://www.gov.uk/cysylltu-canolfan-byd-gwaith)

## **Nyth (Cynllun cartrefi cynnes Llywodraeth Cymru)**

Cynllun gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cyngor am effeithiolrwydd ynni. Bydd gwelliannau effeithiolrwydd yn cael eu darparu am ddim ar gyfer pobl sy'n ateb meini prawf penodol.

Ffôn: 0808 808 2244

[www.llyw.cymru/cael-cymorth-gydag-effeithlonrwydd-ynni-yn-eich-cartref-gan-nyth](http://www.llyw.cymru/cael-cymorth-gydag-effeithlonrwydd-ynni-yn-eich-cartref-gan-nyth)

## **GIG 111 Cymru**

Gwybodaeth am gyflyrau iechyd, triniaethau a gwasanaethau'r GIG yng Nghymru.

[www.111.wales.nhs.uk](http://www.111.wales.nhs.uk)

## **Y Gwasanaeth Pensiwn**

Mae'n rhoi mwy o wybodaeth am Bensiwn y Wladwriaeth, Credyd Pensiwn a sut i wneud cais.

Llinell hawlio Pensiwn y Wladwriaeth: 0800 731 7936

Ffôn testun: 0800 731 7013

Llinell gymorth Credyd Pensiwn: 0800 99 1234

Ffôn testun: 0800 169 0133

[www.gov.uk/cysylltwch-gwasanaeth-pensiwn](http://www.gov.uk/cysylltwch-gwasanaeth-pensiwn)

## **Shelter Cymru**

Elusen sy'n darparu cefnogaeth i bobl sy'n wynebu problemau yn ymwneud â thai. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o bynciau yn cynnwys hawliau deiliad contract, digartrefedd ac atgyweiriadau.

Ffôn: 08000 495 495

[www.sheltercymru.org.uk](http://www.sheltercymru.org.uk)

## **The Trussell Trust**

Rhwydwaith genedlaethol o fanciau bwyd.

Ffôn: 01722 580 180

[www.trusselltrust.org](http://www.trusselltrust.org)

## **Y Ganolfan Taliadau Tanwydd Gaeaf**

Gwybodaeth a ffurflenni cais i hawlio'r taliad.

Ffôn: 0800 731 0160

[www.gov.uk/taliad-tanwydd-gaeaf](http://www.gov.uk/taliad-tanwydd-gaeaf)

# Cysylltwch â ni

## Ymholiadau cyffredinol

029 2043 1555

[enquiries@agecymru.org.uk](mailto:enquiries@agecymru.org.uk)

## Cyngor Age Cymru

0300 303 44 98

[cyngor@agecymru.org.uk](mailto:cyngor@agecymru.org.uk)

## Ewch i'r wefan

[www.agecymru.cymru](http://www.agecymru.cymru)

## Y cyfryngau cymdeithasol

Mae ein sianeli cyfryngau cymdeithasol yn ffordd wych o gael y wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith a materion sy'n effeithio ar bobl hŷn.

 [www.facebook.com/agecymru](http://www.facebook.com/agecymru)

 [www.twitter.com/agecymru](http://www.twitter.com/agecymru)

 [www.youtube.com/agecymru](http://www.youtube.com/agecymru)

# Sut y gallwch chi helpu?



## Gwneud rhodd

Mae rhoddion o bob math yn gwneud gwahaniaeth enfawr ac yn ein helpu i gefnogi gwaith pwysig.

- Ffoniwch **029 2043 1555**
- Ewch i **[www.agecymru.cymru/rhoi](http://www.agecymru.cymru/rhoi)**
- Neu sganiwch y cod QR isod:



Mae pob rhodd yn ein helpu i gefnogi person hŷn sydd angen help.

- Mae £10 yn cefnogi gweithiwr cynghori arbenigol sydd wedi'i hyfforddi'n llawn i ymateb i ymholiadau gan bobl sydd angen cefnogaeth ein gwasanaeth gwybodaeth a chyngor.
- Mae £20 yn helpu tuag at y gost o gynhyrchu canllawiau gwybodaeth a thafleuni ffeithiau am ddim sy'n darparu cyngor defnyddiol am faterion sy'n effeithio ar bobl dros 50 oed.



## Codi arian

Gallwch chi werthu bwyd sydd wedi cael ei bobî, rhedeg marathon neu wau hetiau bach ar gyfer y Big Knit, mae nifer o ffyrdd gwahanol i godi arian hanfodol er mwyn cefnogi ein gwaith.

- Ffoniwch **029 2043 1555**
- Ewch i **[www.agecymru.cymru/cymryd-rhan](http://www.agecymru.cymru/cymryd-rhan)**



## Gwirfoddoli gyda ni

Mae pob rôl wirfoddol yn ein cefnogi i wella bywydau pobl hÿn mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae nifer o ffyrdd i gymryd rhan.

- Ffoniwch **029 2043 1555**
- Ewch i **[www.agecymru.cymru/gwirfoddolwr](http://www.agecymru.cymru/gwirfoddolwr)**



## Gadewch rodd i ni yn eich ewyllys

Wrth adael rhodd i Age Cymru yn eich ewyllys, rydych chi'n sicrhau bod pobl hÿn yn cael y gefnogaeth y maen nhw'n ei haeddu yn y blynyddoedd i ddod. Gadewch y byd yn lle llai unig.

Ffoniwch **029 2043 1555**

Ewch i **[www.agecymru.cymru/gadael-gwaddol](http://www.agecymru.cymru/gadael-gwaddol)**

# Nodiadau

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

# Nodiadau

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---



